Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Rhagfyr 2019

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 21 Tachwedd, yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer Brexit ers diddymu'r Senedd.

Mae'r risg o ymadael heb gytundeb ar ddiwedd mis Ionawr yn llawer llai bellach ond gan mai dyma'r sefyllfa gyfreithiol ddiofyn ac na allwn fod yn gwbl sicr na fydd yn digwydd, mae paratoadau rhesymol ar gyfer ymadael heb gytundeb wedi parhau ers diddymu'r Senedd ar 6 Tachwedd.

Mae'r rhain wedi cynnwys ystyried a oes angen addasu unrhyw un o'n paratoadau o ganlyniad i'r dyddiad ymadael newydd ym mis Ionawr, parhau i gysylltu gyda Llywodraeth y DU ynghylch prosiectau parodrwydd sy'n berthnasol i feysydd datganoledig a chadarnhau'r meysydd blaenoriaeth yr ydym eisiau gweithio gyda Llywodraeth y DU arnynt os ceir Brexit heb gytundeb ym mis Ionawr.

Rydym yn dal i bwysleisio y byddai Brexit heb gytundeb yn drychinebus i Gymru, ac er y dylid osgoi'r canlyniad hwnnw, fel llywodraeth gyfrifol byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i baratoi a lliniaru effeithiau hynny cyn belled ag y bo modd.

Roedd eich llythyr hefyd yn nodi dau faes penodol y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael yr wybodaeth ddiweddaraf amdanynt; cyflwr presennol cysylltiadau rhynglywodraethol a chynnydd ar fframweithiau cyffredin. Mae'r wybodaeth wedi'i nodi isod.

Mae cysylltiadau â Llywodraeth y DU yn amrywio ac yn dibynnu ar ffactorau fel perthnasoedd rhyngbersonol - dyma pam yr ydym wedi galw yn gyson am gysylltiadau rhynglywodraethol diwygiedig. Mae rhai meysydd o hyd lle mae trafodaethau adeiladol yn bosibl ac yn gynhyrchiol. Ond yn gyffredinol, dechreuodd cysylltiadau â Llywodraeth y DU ddirywio wedi i Boris Johnson ddod yn Brif Weinidog. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys llai o fynediad at wybodaeth ynghylch cynllunio ar gyfer ymadael heb gytundeb a diffyg ymwneud ffurfiol gan Weinidogion ar yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol (er y gwnaed mwy o gynnydd ar lefel swyddogion ar hwn o ganlyniad i drafodaethau cadarnhaol gyda Changhellor blaenorol Dugiaeth Caerhirfryn).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar y llaw arall, mae'r cysylltiadau â Llywodraeth yr Alban yn gryfach nag erioed. Rydym hefyd yn parhau i groesawu gwaith Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon i gynrychioli lles eu dinasyddion cyn belled ag y bo modd yn absenoldeb Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon.

Mae cysylltiadau amlochrog wedi tueddu i gael eu dylanwadu'n gryf gan natur ein perthnasoedd dwyochrog, yn enwedig gyda Llywodraeth y DU. Mae'n anffodus iawn nad oes cyfarfod o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) wedi'i gynnal ers bron i flwyddyn, felly nid ydym wedi gallu asesu cyflwr perthnasoedd ar lefel penaethiaid llywodraethau.

Bu lleihad sylweddol iawn mewn cysylltiadau ar lefel Gweinidogol ac ar lefel swyddogion gyda Llywodraeth y DU ers diddymu Senedd y DU, ac eithrio cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.

O ran rhaglen Fframweithiau Cyffredin y DU gyfan, amserlen bresennol y Fframweithiau yw y dylent oll fod yn eu lle erbyn mis Rhagfyr 2020 a dyma yw ein disgwyliad ni. Rydym yn rhagweld tua 40 o Fframweithiau sy'n ymwneud â meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, er y bydd hyn yn dibynnu ar y posibilrwydd o uno sawl maes polisi a nifer fach o feysydd eraill lle efallai na fydd angen Fframwaith yn y pen draw.

Yng Nghymru, bydd angen deddfwriaeth sylfaenol y DU ar gyfer Fframweithiau rheoli a chefnogi pysgodfeydd a chymorth amaethyddol. Efallai y bydd angen deddfwriaeth eilaidd hefyd ar gyfer rhai Fframweithiau. Y mwyaf tebygol o'r rhain ar hyn o bryd yw Iechyd Anifeiliaid, Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, a Masnachu Allyriadau.

Mae'n bwysig nodi, gyda meysydd Fframwaith anneddfwriaethol, er eu bod wedi'u seilio ar ddeddfwriaeth, na fydd angen deddfwriaeth ar gyfer y cytundebau eu hunain.

Ers i'r Cwnsler Cyffredinol ymddangos gerbron y Pwyllgor ym mis Tachwedd, mae galw Etholiad Cyffredinol wedi golygu oedi yn y gwaith o ddarparu'r cytundebau drafft amlinellol cyntaf ar gyfer y pum maes Fframwaith, a oedd i fod i gael eu darparu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Mae pedwar o'r meysydd hyn (Masnachu Allyriadau, Sylweddau Ymbelydrol, Maeth a Sylweddau Peryglus) yn berthnasol i Gymru. Mae trafodaethau rhwng swyddogion yn y meysydd hyn wedi parhau yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ond maent wedi arafu, a hynny yn ddealladwy. Rydym yn awyddus i weld cynnydd ar ddechrau mis Ionawr a byddwn yn rhoi pwysau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Dim ond pan fydd ein perthynas â'r UE yn y dyfodol yn gliriach y gallwn gwblhau'r Fframweithiau. Ond, rydym yn parhau i wneud cynnydd da ar elfennau o'r Fframweithiau hyn, gan gynnwys creu perthynas well ar lefel swyddogion ynglŷn â meysydd polisi allweddol. Mae trafodaethau helaeth wedi parhau rhwng swyddogion Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran datblygu polisïau Fframwaith a dylem gydnabod y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y meysydd hyn. Rydym yn awyddus i symud trafodaethau ymlaen ar ddull gweithredu i ddeddfwrfeydd y DU a fydd yn golygu bod craffu'n digwydd ar draws y DU. Bydd proses amserol a thryloyw ar gyfer craffu ar y Fframweithiau yn hanfodol i'w llwyddiant. Byddwn yn rhannu elfennau o'r broses graffu a gytunwyd gan Weinidogion Cymru, y DU a'r Alban gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl, ynghyd â sylwadau pellach ar y papur a gyhoeddwyd gennych ym mis Hydref, *Fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan: craffu ar drefniadau fframwaith anneddfwriaethol*. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddatblygu trefn graffu sy'n briodol i'r materion y mae'r rhaglen Fframwaith yn eu cyflwyno i Gymru.

Bydd y Cwnsler Cyffredinol yn ysgrifennu at y Pwyllgor ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynglŷn â darparu cytundebau amlinellol cyntaf y Fframwaith.

Rwy'n gobeithio bod y diweddariad hwn wedi bod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ac rwy'n edrych ymlaen at drafod paratoadau Llywodraeth Cymru mewn rhagor o fanylder yn eich cyfarfod ar 6 Ionawr.

Dymuniadau gorau,



**MARK DRAKEFORD**